

## Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Glenys Parry (Groes) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei thad, Trefor Aled Jones, y penwythnos diwethaf. Gweddiwn y byddant oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion at Iwan Jones (Saron) gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Abergele ganol yr wythnos ac R. Eifion Jones (Llansannan) fu yn Ysbyty Glan Clwyd yn dilyn damwain gas. Parhawn i gofio hefyd am Morfudd Williams (Henllan) yn yr Inffirmari a Beryl Jones (Nantglyn) yn Ysbyty Rhuthun. Cyflwynwn hwy, a phawb arall sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn, i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn profi Duw yn gwarchod drostynt a'i ddaioni yn eu hamgylchynu.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mr Selwyn Davies (Southern House); Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy); Mrs Gwenfyl Jones a Mr Gwyn H. Davies (Yr Hen Ficerdy); a Mrs Elizabeth Hughes (Plas Eleri). Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd gan ddiolch am y gofal y maent yn ei dderbyn.

## I ddo

- **CYFARFOD BLYNYDDOL BLAENORIAID A DIACONIAID YR OFALAETH** yn Festri Llansannan nos Lun, Rhagfyr 14eg am 7.30.
- **“AWN I FETHLEM”** – Gwasanaeth Carolau Cymdeithas Llansannan yn Eglwys Sant Sannan nos Lun, Rhagfyr 21ain am 7.30.
- **OEDFA BORE NADOLIG I'R FRO** yng Nghapel Saron am 9.30.
- **OEDFA I'R FRO** bore Sul, Rhagfyr 27ain am 11.00 yng Nghapel Cefn Berain gyda Celfyn Williams yn arwain a Rhodri Glyn yn pregethu.

## Manylion Cyswllt

Aneurin – [aneurin@eglwysibroaled.com](mailto:aneurin@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
Gwion – [gwion@eglwysibroaled.com](mailto:gwion@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07849 591163  
Sarah – [sarah@eglwysibroaled.com](mailto:sarah@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07900 308461  
Mair – [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536  
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

## Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 6<sup>ed</sup> Rhagfyr 2015

Darlleniad y Dydd

Eseia 9:2-7

(BCND tud.627 / BCN: tud.572)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da! Gobeithio'ch bod chi wedi dod trwy y tywydd stormus wythnos yma heb ormod o anhawster. Mae'n rhaid i fi gyfaddef, yr unig anhawster i mi ei gael wythnos yma oedd dau ddydd o Scottish Power yn galw i checio ar leiniau trydan yn yr ardd tra roeddwn i dal yn fy mhyjamas! Ond beth bynnag am fy embaras bach i, gobeithio y bydd eich Sul yn fendithiol ac y byddwch yn cael dysgu rhywbeth newydd am Dduw a dyfnhau eich perthynas gydag Ef.

Cefais fy atgoffa dydd Mawrth am y Mudiad Hawliau Sifil yn Yr Unol Daleithiau. Roedd hi'n 60 mlynedd i'r diwrnod ers i Rosa Parks wrthod rhoi ei sêl i ddydd gwyn ar fws yn Montgomery, Alabama. Sbardunodd y weithred honno y Mudiad, a daeth yn symbol o'r hyn roedd yn sefyll drosto – gwrthwynebiad di-sigl, heddychlon i hiliaeth. Roedd yn fudiad gafodd lawer iawn o barch a chefnogaeth am ei heddychiaeth, ac yn y diwedd, cafodd lwyddiant – Deddf Hawliau Sifil 1968.

Mae'r wythnos yma wedi hefyd bod yn un ofnadwy o bwysig yn hanes y Deyrnas Unedig ble mae ein haelodau seneddol wedi gwneud y penderfyniad i fomio'r ardaloedd o Syria lle mae Daesh (ISIS) yn gryf. Pleidleisiodd 397 o blaid ymyrryd yn filwrol a 223 yn erbyn. Roedd pleidleisiau i'r ddwy ochr yn dod o bob plaid, o bob cefndir, o bob crefydd a'r di-grefydd, felly mae'n deg dweud mai adlewyrchiad o'r farn gyhoeddus oedd y bleidlais.

Ond ydi hynny'n adlewyrchu beth mae'r Beibl yn ei ddysgu? I fod yn onest, fedra i ddim credu hynny. Mae'n destun dadleuol dros ben. I mi, mae'r ffaith fod Iesu'n dweud y canlynol yn ddigon o dystiolaeth yn erbyn rhyfela o bob math: “*Dw i'n dweud wrthoch chi sy'n gwrando: Carwch eich gelynion, gwnewch ddaioni i'r bobl sy'n eich casáu chi, bendithiwch y rhai sy'n eich melltithio chi, a gweddiwch dros y rhai sy'n eich cam-drin chi. Os ydy rhywun yn rhoi clatsien i ti ar un foch, tro'r foch arall ato. Os ydy rhywun yn dwyn dy gôt, paid â'i rwystro rhag cymryd dy grys hefyd. Rho i bawb sy'n gofyn am rywbeth gen ti, ac os bydd rhywun yn cymryd rhywbeth piau ti, paid â'i hawlio yn ôl. Dylech chi drin pobl eraill fel byddech chi'n hoffi iddyn nhw eich trin chi.*” (Luc 6:27-31). Rydym ni fel Cristnogion felly i fod i garu ein gelynion (a'n ffrindiau) ym mhob sefyllfa. Yn wyneb trais a chreulondeb 'da ni i ymateb efo cariad llwyr. Rydan ni yn perthyn i Deyrnas uwch, Teyrnas Duw. Mae hon yn Deyrnas o heddwch a chariad. Rydan ni'n gweddi i'r Deyrnas yma ddod ac i Dduw deyrnasu yng Ngweddi'r Arglwydd, felly oni ddylen ni ymarfer hyn yn ein bywydau bob dydd ac yn ein barn am faterion rhyngwladol? Awn at y Beibl i hogi ein barn.

DILYNWCH NI: [@eglwysibroaled](https://twitter.com/eglwysibroaled)

Gwion


Darlleniad Wythnos Nesaf

Luc 1:57-66 (BCND tud.62 / BCN: tud.57)

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 6<sup>ed</sup>
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mercher – 9<sup>fed</sup>
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30. (SYLWCH AR Y NEWID NOSON.)
- Iau – 10<sup>fed</sup>
- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener – 11<sup>eg</sup>
- **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Llansannan am 7.30.
- Sul nesaf – 13<sup>eg</sup>



### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 6<sup>ed</sup>
- Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth – 8<sup>fed</sup>
- Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 13<sup>eg</sup>
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

## Cyhoeddiadau

### Llansannan

- Sul yma – 6<sup>ed</sup>
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd am 10.00 pryd y bydd Aled a Llinos Roberts yn cyflwyno Dewi Aled i gael ei fedyddio. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg, ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.
- Llun – 7<sup>fed</sup>
- Bydd cyfarfod am 7.30 yn Ystafell y Blaenoriaid i drefnu'r Parti Nadolig. Croeso i bawb.
- Sul nesaf – 13<sup>eg</sup>
- Bydd Sarah yn arwain oedfa undebol am 10.00 pryd y byddwn yn dathlu Sul y Beibl. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 6<sup>ed</sup>
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 13<sup>eg</sup>
- Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 6<sup>ed</sup>
- Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00. (SYLWCH AR Y NEWID AMSER AR GYFER YSGOL SUL SARON.)
- Sul nesaf – 13<sup>eg</sup>
- Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Saron.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 6<sup>ed</sup>
- Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 13<sup>eg</sup>
- Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 6<sup>ed</sup>
- Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yno am 2.00.
- Gwener – 11<sup>eg</sup>
- Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, Rhagfyr 6ed** os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 13<sup>eg</sup>
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul y plant yn Llanefydd am 10.00 a'r oedolion am 11.15.